OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1818 (Cy.146)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*5 Gorffennaf 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 19 a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Medi 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i athrawon ysgol yng Nghymru.

Dirymu a darpariaeth drosiannol

2.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003(**3**), Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2004(**4**) a rheoliad 4 o Reoliadau Athrawon Ysgol (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004(**5**) wedi'u dirymu.

(2) Mae person sydd ar 1 Medi 2005 yn gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003 i gael ei drin fel pe bai'n gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn unol â'r Rheoliadau hyn.

Dehongli

3.—(1) Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn —

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 19 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000, adran 139 ac Atodlen 11, a Deddf Addysg 2002, Atodlen 21, paragraff 85. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2003/543 (Cy.77).
(**4**) O.S. 2004/872 (Cy.87).
(**5**) O.S. 2004/1745 (Cy.184).

ystyr "athro neu athrawes gofrestredig" ("*registered teacher*") yw person a gafodd awdurdodiad i addysgu yn unol â pharagraffau 12 i 18 o Atodlen 2 i Reoliadau 1999 cyn 1 Medi 2004;

ystyr "athro neu athrawes gyflenwi" ("*supply teacher*") yw athro neu athrawes a gyflogir yn gyfan gwbl neu yn bennaf at ddibenion goruchwylio neu addysgu disgyblion nad yw eu hathro neu athrawes reolaidd ar gael i'w haddysgu;

ystyr "athro neu athrawes gyflenwi tymor byr" ("*short term supply teacher*") yw athro neu athrawes gyflenwi a gyflogir am gyfnod o lai nag un tymor;

ystyr "athro neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yw person sy'n bodloni'r gofynion sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau sydd wedi'u gwneud o dan adran 132 o Ddeddf 2002(**6**);

ystyr "athro neu athrawes raddedig" ("*graduate teacher*") yw person a gafodd awdurdodiad i addysgu yn unol â pharagraffau 5 i 11 o Atodlen 2 i Reoliadau 1999 cyn 1 Medi 2004;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod addysg lleol;

mae "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yn cynnwys blwyddyn academaidd coleg AB;

ystyr "coleg AB" ("*FE college*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach yn unol â'r diffiniad yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**7**);

mae i "corff llywodraethu" mewn perthynas â choleg AB yr un ystyr ag sydd i "*governing body*" yn adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

ystyr "corff priodol" ("*appropriate body*") yw'r corff priodol o dan reoliad 5;

mae "cyflogwr" ("*employer*") yn cynnwys awdurdod, corff llywodraethu neu berson arall sy'n cymryd person ymlaen (neu'n gwneud trefniadau i'w gymryd ymlaen) er mwyn darparu ei wasanaethau fel athro neu athrawes heblaw o dan gontract cyflogaeth, ac mae "cyflogi" ("*employed*"), "cyflogaeth" ("*employment*") ac unrhyw ymadroddion sy'n ymwneud â therfynu cyflogaeth i'w dehongli yn unol â hynny;

mae i "cyfnod allweddol" yr un ystyr ag sydd i "*key stage*" yn adran 103(1) o Ddeddf 2002;

ystyr "cyfnod ymsefydlu" ("*induction period*") yw cyfnod ymsefydlu sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**8**);

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002(**9**);

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc o fewn ystyr "*bank holiday*" yn Neddf Bancio a Deliadau Ariannol 1971(**10**);

(**6**) Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd o dan y ddarpariaeth hon yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1729 (Cy.173).
(**7**) 1992 p.13.
(**8**) 1998 p.31.
(**9**) 2002 p.32.
(**10**) 1971 p.80.

ystyr "diwrnod ysgol" ("*school day*") mewn perthynas ag ysgol yw unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno, ac mewn perthynas â choleg AB unrhyw ddiwrnod pan fydd y coleg yn cyfarfod;

mae "pennaeth" ("*head teacher*") yn cynnwys pennaeth coleg AB;

ystyr "Rheoliadau 1999" ("*the 1999 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**11**);

ystyr "Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol" ("*the School Teachers' Qualifications Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**12**);

ystyr "Rheoliadau Ymsefydlu Lloegr" ("*England's Induction Regulations*") yw rheoliadau a wneir o bryd i'w gilydd o dan adran 19 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**13**) mewn perthynas ag athrawon yn Lloegr;

ystyr "sefydliad" ("*institution*") yw ysgol berthnasol, ysgol annibynnol neu goleg AB lle ceir gwasanaethu cyfnod ymsefydlu o dan y Rheoliadau hyn, yn ôl gofynion y cyd-destun;

mae i "sesiwn ysgol" ("*school session*") yr un ystyr ag a roddir iddo yn rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003(**14**);

mae "tymor ysgol" ("*school term*") yn cynnwys tymor coleg AB;

mae i "ysgol arbennig" yr un ystyr ag sydd i "*special school*" yn adran 337(1) o Ddeddf 1996(**15**);

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol arbennig nad yw'n ysgol arbennig gymunedol nac yn ysgol arbennig sefydledig; ac

ystyr "ysgol berthnasol" ("*relevant school*") yw ysgol sy'n cael ei chynnal gan awdurdod neu ysgol arbennig nas cynhelir.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person wedi cwblhau cyfnod ymsefydlu pan fydd y person hwnnw wedi gwasanaethu cyfnod ymsefydlu o —

(a) tri thymor ysgol, neu

(b) unrhyw hyd arall y mae'r corff priodol wedi penderfynu arno yn unol â rheoliad 8(2) (gan gynnwys dim ond cyfnodau cyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu o dan reoliad 9); a

phan fydd y corff priodol yn ymestyn y cyfnod ymsefydlu yn unol â rheoliad 10, cyfnod yr estyniad hwnnw.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at —

(a) rheoliad neu Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;

(b) paragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y rheoliad neu'r Atodlen y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddynt; ac

(c) is-baragraff â Rhif yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y paragraff y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo.

(**11**) O.S. 1999/2817 (Cy. 18) a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12), 2003/2458 (Cy.240) ac a ddirymwyd i raddau helaeth gan O.S. 2004/1729 (Cy.173), 2004/1744 (Cy.183) a 2004/2733 (Cy.240).

(**12**) O.S. 2004/1729 (Cy.173).

(**13**) Y rheoliadau mewn grym ar gyfer Lloegr adeg gwneud y Rheoliadau hyn oedd Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cydgrynhoad) (Lloegr) 2001 (O.S. 2001/2897) fel y'u diwygiwyd gan O.S.2001/3938, O.S. 2002/2063 ac O.S. 2003/2148.

(**14**) O.S. 2003/3231 (Cy. 311).

(**15**) 1996 p.56. Mae adran 337(1) wedi'i ddiwygio gan baragraff 80 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Torri terfynau amser

4. Nid yw methiant gan unrhyw berson i gyflawni unrhyw ddyletswydd o fewn terfyn amser a bennir yn y Rheoliadau hyn yn rhyddhau'r person hwnnw o'r ddyletswydd honno.

Corff priodol

5.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn —

(a) y corff priodol mewn perthynas ag ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir (ym mhob achos o fewn ystyr y termau cyfatebol Saesneg yn Neddf 1998) yw'r awdurdod sy'n ei chynnal;

(b) y corff priodol mewn perthynas ag ysgol arbennig nas cynhelir yw'r awdurdod ar gyfer yr ardal y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddi;

(c) y corff priodol mewn perthynas ag ysgol annibynnol yw —

(i) awdurdod, neu

(ii) unrhyw bersonau neu gorff y caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu arnynt, a rhaid i'r personau hynny neu'r corff hwnnw gynnwys cynrychiolydd awdurdod fel aelod; ac

(ch) y corff priodol mewn perthynas â choleg AB yw awdurdod.

(2) Mae unrhyw gwestiwn ynglyn â phwy yw'r corff priodol er mwyn arfer unrhyw swyddogaethau a osodir ar gorff priodol neu a roddir i gorff priodol gan y Rheoliadau hyn mewn achos lle mae person yn gwasanaethu cyfnod ymsefydlu mewn mwy nag un sefydliad i gael ei benderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Gofyniad i wasanaethu cyfnod ymsefydlu

6. Yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn Atodlen 1, nid oes neb i gael ei gyflogi ar neu ar ôl 1 Medi 2005 fel athro neu athrawes mewn ysgol berthnasol oni bai bod y person hwnnw wedi cwblhau'n foddhaol gyfnod ymsefydlu yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn mewn ysgol neu goleg AB y mae rheoliad 7(1) yn cyfeirio atynt.

Sefydliadau lle ceir gwasanaethu cyfnod ymsefydlu

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dim ond yn y canlynol y ceir gwasanaethu cyfnod ymsefydlu —

(a) ysgol berthnasol yng Nghymru heblaw ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig sydd wedi ei sefydlu mewn ysbyty; neu

(b) o dan yr amgylchiadau a ragnodir ym mharagraff (3) ysgol annibynnol yng Nghymru; neu

(c) o dan yr amgylchiadau a ragnodir ym mharagraff (4) coleg AB yng Nghymru; neu

(ch) ysgol neu goleg AB yn Lloegr y ceir gwasanaethu cyfnod ymsefydlu ynddynt o dan Reoliadau Ymsefydlu Lloegr.

(2) Ni cheir gwasanaethu cyfnod ymsefydlu yn y canlynol —

(a) ysgol yng Nghymru y mae'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 15(6)(a) a (b) o Ddeddf 1998 yn gymwys mewn perthynas â hi, oni bai —

(i) bod y person o dan sylw wedi dechrau ei gyfnod ymsefydlu neu wedi'i gyflogi fel athro neu athrawes raddedig neu athro neu athrawes gofrestredig neu ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn yr ysgol ar adeg pan nad oedd amgylchiadau o'r fath yn gymwys, neu

(ii) bod un o Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru wedi ardystio yn ysgrifenedig ei fod yn fodlon bod yr ysgol yn addas at ddibenion darparu goruchwyliaeth a hyfforddiant ymsefydlu; neu

(b) uned cyfeirio disgyblion.

(3) Dyma'r amgylchiadau pan gaiff person wasanaethu cyfnod ymsefydlu mewn ysgol annibynnol —

(a) yn achos person sy'n cael ei gyflogi i addysgu disgyblion yng nghyfnod allweddol tri neu bedwar, bod cwricwlwm yr ysgol ar gyfer disgyblion y cyfnodau allweddol hynny yn cynnwys yr holl bynciau craidd a'r holl bynciau sylfaen eraill a bennwyd mewn perthynas â chyfnodau allweddol tri a phedwar yn adran 105(2) a (3) ac adran 106(2) a (3) o Ddeddf 2002 y mae'r person hwnnw wedi'i gyflogi i'w haddysgu; a

(b) ym mhob achos, bod y cwricwlwm ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig yng nghyfnodau allweddol un a dau yn bodloni gofynion adran 105(1) o Ddeddf 2002 (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru), heblaw mewn perthynas â threfniadau asesu; ac

(c) ym mhob achos, cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, bod perchennog yr ysgol a naill ai awdurdod neu'r personau neu'r corff y penderfynir arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 5(1)(c) wedi cytuno bod yr awdurdod neu'r personau neu'r corff, yn ôl fel y digwydd, i weithredu fel y corff priodol mewn perthynas â'r ysgol.

(4) Ni chaiff person wasanaethu cyfnod ymsefydlu mewn coleg AB yng Nghymru oni bai bod corff llywodraethu'r coleg ac awdurdod wedi cytuno, cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, fod yr awdurdod i weithredu fel y corff priodol mewn perthynas â'r coleg.

(5) Ni chaiff person wasanaethu cyfnod ymsefydlu mewn dau neu fwy o sefydliadau ar yr un pryd oni bai bod penaethiaid yr holl sefydliadau wedi cytuno, cyn i'r cyfnod ymsefydlu ddechrau, p'un ohonynt sydd i weithredu fel y pennaeth arweiniol.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae "cyfnod ymsefydlu" ("*induction period*") yn cynnwys rhan o gyfnod ymsefydlu.

Hyd cyfnod ymsefydlu

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), tri thymor ysgol fydd hyd cyfnod ymsefydlu ("y rheol tri thymor").

(2) Nid yw'r rheol tri thymor yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol —

(a) os yw cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu mewn sefydliad lle nad yw'r flwyddyn ysgol yn cynnwys tri thymor ysgol;

(b) os yw cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu gan berson mewn gwasanaeth rhan-amser;

(c) os yw cyfnod ymsefydlu'n cael ei wasanaethu mewn dau neu fwy o sefydliadau ar yr un pryd;

(ch) os nad yw'n briodol, ym marn y corff priodol, fod y rheol tri thymor yn gymwys.

(3) Hyd y cyfnod ymsefydlu pan nad yw'r rheol tri thymor yn gymwys yw unrhyw hyd a bennir gan y corff priodol.

Cyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu

9.—(1) Dim ond cyfnodau o gyflogaeth sydd wedi'u pennu ym mharagraff (2) ar neu ar ôl 1 Medi 2003 fel athro neu athrawes gymwysedig sy'n cyfrif tuag at gyfnod ymsefydlu.

(2) At ddibenion paragraff (1), y cyfnodau o gyflogaeth yw: